YSGOL PENRHYN-COCH

Bu diwedd y tymor diwethaf fel arfer yn un eithaf prysur.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Eglwys Sant Ioan a hyfryd oedd gweld y cysegr yn llawn. Trwy gyfrwng canu, adrodd ac actio cyflwynwyd neges y Nadolig yn effeithiol iawn. Diolch i rieni a chyfeillion am bob cefnogaeth ac am eu geiriau caredig o werthfawrogiad. Cymerodd pob plentyn ran a chael hwyl wrth wneud hynny.

Bu'r parti Nadolig yn un llwyddiannus hefyd. 'Roedd y rhieni wedi gofalu bod digon o fwyd ar y byrddau ac wedi'r wledd cafwyd disgo yng ngofal Mr. Henry Davies. Diolch iddo am noson mor ddiddorol. Ymwelodd y clown á ni hefyd a chafwyd egwyl hapus yn ei gwmni. Mrs. Carys Jones oedd wedi trefnu'r ymweliad. Fel arfer daeth Siôn Corn gyda'i sachau'n llawn anrhegion a chafodd groeso mawr wrthgwrs. Diolch i rieni a swyddogion am drefnu parti mor dda ar gyfer pawb ohonom.

Eleni eto paratowyd Cinio Nadolig hyfryd iawn gan Mrs. E. Scurlock a Mrs. Prysorwen Davies. 'Roedd y craceri wedi eu rhoi i'r plant gan Mr. a Mrs. D. Rees Morgan a Mr. a Mrs. W. Humphreys, Gelli a gyflwynodd y Goeden Nadolig i'r ysgol. 'Rydym yn dra diolchgar iddynt am eu caredigrwydd. Diolch lawer i Mr. a Mrs. Cyril P. Jenkins, am eu haelioni arferol yn rhoi afalau ac orennau i'r plant i gyd. Gwerthfawrogwn eu caredigrwydd yn fawr.